OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 327

# Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002

## RHAN V

## RHEOLI CARTREFI

**Ymweliadau gan y darparydd cofrestredig**

**32.**—(1) Os yw'r darparydd cofrestredig yn unigolyn nad yw'n rheoli'r cartref, rhaid iddo ymweld â'r cartref yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Os corff yw'r darparydd cofrestredig, rhaid i'r canlynol ymweld â'r cartref yn unol â'r rheoliad hwn—

(a) yr unigolyn cyfrifol;

(b) un arall o'r cyfarwyddwyr neu'r personau eraill sy'n gyfrifol am reoli'r corff ac sy'n addas i ymweld â'r cartref; neu

(c) cyflogai i'r corff nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r cartref ac sy'n addas i ymweld â'r cartref.

(3) Rhaid i ymweliadau o dan baragraff (1) neu (2) ddigwydd o leiaf unwaith y mis a gallant fod yn ddirybudd.

(4) Rhaid i'r person sy'n ymweld—

(a) cyfweld, gyda'u cydsyniad ac yn breifat, ag unrhyw un o'r plant sy'n cael eu lletya yno, eu rhieni, eu perthnasau ac unrhyw un o'r personau sy'n gweithio yn y cartref y mae'n ymddangos iddo eu bod yn angenrheidiol er mwyn ffurfio barn am safon y gofal sy'n cael ei ddarparu yn y cartref;

(b) archwilio safle'r cartref plant, ei lòg dyddiol o ddigwyddiadau a'i gofnod o unrhyw gwynion; ac

(c) paratoi adroddiad ysgrifenedig ynghylch sut mae'r cartref yn cael ei redeg.

(5) Rhaid i'r darparydd cofrestredig roi copi o'r adroddiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno o dan baragraff (4)(c)—

(a) i reolwr cofrestredig y cartref plant a rhaid iddo gadw'r adroddiad yn y cartref; ac

(b) yn achos ymweliad o dan baragraff (2), i bob un o'r cyfarwyddwyr neu'r personau eraill sy'n gyfrifol am reoli'r corff.

**Adolygu ansawdd y gofal**

**33.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sefydlu a chynnal system—

(a) ar gyfer monitro ac adolygu'r materion a nodir yn Atodlen 6 bob hyn a hyn fel y bo'n briodol, ac

(b) ar gyfer gwella ansawdd y gofal a ddarperir yn y cartref.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig roi adroddiad i swyddfa brioodol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer pob adolygiad a gynhelir at ddibenion paragraff (1), a threfnu bod copi ar gael ar gais i'r plant sy'n cael eu lletya yn y cartref, eu rhieni a'r awdurdodau lleoli.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r system y cyfeirir ati ym mharagraff (1) ddarparu ar gyfer ymgynghori â'r plant sy'n cael eu lletya yn y cartref, eu rhieni a'u hawdurdodau lleoli.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig beidio ag anelu at sicrhau ymgynghoriad â rhiant plentyn o dan baragraff (3) os oes gorchymyn llys sy'n cyfyngu ar gysylltiadau rhwng y plentyn a'r rhiant a'i bod yn angenrheidiol atal ymgynghoriad o'r fath, neu gyfynu arno, er mwyn hybu neu ddiogelu lles y plentyn.

**Rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol**

**34.** Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod copi o'r Rheoliadau hyn (ac o unrhyw ddiwygiadau iddynt) ac o'r safonau gofynnol cenedlaethol(**1**) (ac o unrhyw ddiwygiadau iddynt) sy'n gymwys i gartrefi plant a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 23(1) o'r Ddeddf yn cael eu cadw yn y cartref a threfnu eu bod ar gael pan ofynnir amdanynt—

(a) i unrhyw berson sy'n gweithio yn y cartref;

(b) i unrhyw blentyn sy'n cael ei letya yn y cartref; ac

(c) i riant unrhyw blentyn sy'n cael ei letya yn y cartref.

**Y sefyllfa ariannol**

**35.**—(1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig redeg y cartref plant mewn modd sy'n debyg o sicrhau y bydd y cartref yn hyfyw yn ariannol er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn ei ddatganiad o ddiben.

(2) Rhaid i'r darparydd cofrestredig—

(a) sicrhau bod cyfrifon digonol yn cael eu cadw mewn perthynas â chartref plant a'u cadw'n gyfoes;

(b) rhoi copi o'r cyfrifon i'r Cynulliad Cenedlaethol pan ofynnir amdano.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig roi i swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw wybodaeth y gall y Cynulliad Cenedlaethol ofyn amdani er mwyn ystyried hyfywedd ariannol y cartref plant, gan gynnwys—

(a) cyfrifon blynyddol y cartref, wedi'u hardystio gan gyfrifydd;

(b) tystlythyr gan fanc yn mynegi barn am sefyllfa ariannol y darparydd cofrestredig;

(c) gwybodaeth am ariannu'r cartref a'i adnoddau ariannol;

(ch) os cwmni yw'r darparydd cofrestredig, gwybodaeth am unrhyw un o'i gwmnïau cysylltiedig; a

(d) tystysgrif yswiriant i'r darparydd cofrestredig mewn perthynas â'r rhwymedigaeth y gallai ei thynnu mewn perthynas â'r cartref ynghylch marwolaeth, niwed, rhwymedigaeth gyhoeddus, difrod neu golled arall.

(4) Yn y rheoliad hwn mae cwmni'n gwmni cysylltiedig ag un arall os oes gan un ohonynt reolaeth ar y llall neu os yw'r ddau o dan reolaeth yr un person.

(**1**) O dan adran 23 o'r Ddeddf gall y Cynulliad Cenedlaethol baratoi a chyhoeddi datganiadau ar y safonau gofynnol cenedlaethol sy'n gymwys i gartrefi plant, sy'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth mewn penderfyniadau ac achosion penodol o dan Ran II o'r Ddeddf.